# Y Pwyllgor Deisebau

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 16 Mehefin 2015** |
| Amser: | **09.05 - 10.09** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

**http://www.senedd.tv/Meeting/Archive/6730bd65-1c45-43ca-9b18-da85a28c91c7?autostart=True**

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **William Powell (Cadeirydd)**<br>**Russell George**<br>**Bethan Jenkins**<br>**Joyce Watson** |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | **Steve George (Clerc)**<br>**Kayleigh Driscoll (Dirprwy Glerc)**<br>**Kath Thomas (Dirprwy Glerc)** |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau.

### 2.1 P-04-637 Diogelu Dyfodol Cerddoriaeth Ieuenctid yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i:

- ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn iddo roi gwybod i'r Pwyllgor pan fydd adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cael ei gyhoeddi a mynegi barn fanylach ar y ddeiseb yn sgil yr adroddiad hwnnw;
- yn y cyfamser, gofyn iddo roi mwy o fanylion am y fethodoleg a ddefnyddiwyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn unol â chais y deisebwyr; ac
- ysgrifennu at Lywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban yn gofyn am wybodaeth am y camau y mae'n debyg eu bod wedi'u cymryd i ailgyflwyno cyllid canolog ar gyfer gwasanaethau cerddoriaeth.

### 2.2P-04-624 Caniatáu i Ofalwyr Maeth Gofrestru gyda Mwy Nag Un Awdurdod Lleol

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i aros i glywed barn y deisebydd am lythyr y Gweinidog, gyda'r bwriad o ofyn i'r Gweinidog pryd y bydd yn bwriadu cael cyngor gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a gofyn iddo roi gwybod i'r Pwyllgor beth oedd canlyniad y cyngor hwnnw.

### 2.3P-04-636 Addysg Rhyw a Chydberthynas

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at:

- y Gweinidog i ofyn ei farn am sylwadau pellach y deisebydd; ac
- yn benodol, gofyn i'r Gweinidog a all y deisebwyr gael copi o ganlyniadau'r 'Sgwrs Fawr' ac a allant gymryd rhan fel rhanddeiliaid yn ystod camau nesaf y drafodaeth.

### 2.4P-04-638 Y Gwasanaethau Brys - Pŵer Mynediad

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at:

- y Dirprwy Weinidog yn gofyn iddo ddarparu ymateb manwl i'r pwyntiau a godwyd gan y deisebwyr, y mae llawer ohonynt yn ymddangos yn rhesymol; ac
- ysgrifennu at swyddogion Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn gofyn am eu barn ar y ddeiseb.

### 2.5P-04-639 Achubwch Addysg Bellach ym Mhowys

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i:

- aros am farn y deisebydd cyn penderfynu ar gamau pellach; ac
- ysgrifennu at swyddogion yng Ngholeg Powys i ofyn am eu barn ar y ddeiseb.

Cafwyd datganiad o fuddiant gan Russell George mewn perthynas â'r ddeiseb hon.

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1 P-04-346 Gofal di-dâl i blant 3 a 4 oed yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i aros am ymateb oddi wrth y deisebydd, ond i gau'r ddeiseb os na cheir ymateb o fewn chwe wythnos.

### 3.2 P-04-522 Asbestos mewn Ysgolion

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i:

- ofyn i'r Gweinidog ymateb i'r cwestiwn o sefydlu Grŵp Llywio ynghylch Asbestos mewn Ysgolion i gynorthwyo'r Adran Addysg a Sgiliau wrth i'w swyddogion lunio ac adolygu polisi ar y mater hwn; ac
- ystyried a ddylid gwahodd y Gweinidog i un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol i ateb cwestiynau ar y mater.

### 3.3 P-04-571 Trin Anemia Niweidiol

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i gadw golwg arni, oherwydd y bydd trafod y mater hwn yn fater penodol i'r Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd a'r Cynulliad maes o law.

### 3.4 P-04-601 Gwaharddiad Arfaethedig ar Ddefnyddio e-sigaréts Mewn Mannau Cyhoeddus

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i gadw golwg arni, oherwydd y bydd trafod y mater hwn yn fater penodol i'r Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd a'r Cynulliad maes o law.

### 3.5 P-04-603 Helpu Babanod 22 Wythnos Oed i Oroesi.

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i aros am ymateb i lythyr y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol at y Prif Swyddog Meddygol.

### 3.6 P-04-597 Diogelu dyfodol Draig Ffynci, Cynulliad Plant a Phobl Ifanc Cymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i:

- aros am farn y deisebydd cyn penderfynu ar unrhyw gamau pellach; ac
- ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn gofyn am wybodaeth am ymrwymiadau a roddwyd gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ar y mater hwn yn ystod sesiwn dystiolaeth ddiweddar gyda'r Pwyllgor.

### 3.7P-04-605 Achub Ffordd Goedwig Cwmcarn Rhag Cael ei Chau am Gyfnod Amhenodol neu'n Barhaol

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i gadw golwg arni yn unol â dymuniad y deisebydd ac i ailedrych arni mewn cyfarfod yn y dyfodol.

### 3.8P-04-619 LLEOLIAETH O RAN CYNLLUNIO AC IAWNDAL AR GYFER TRYDYDD PARTÏON

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i ofyn am farn y Gweinidog ar sylwadau pellach y deisebydd.

### 3.9P-04-627 Gwell Gwasanaethau Trên i Gymudwyr ar gyfer Trigolion Gogledd Cymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i aros i glywed barn y deisebydd ar yr ohebiaeth gan y Gweinidog.

## 2 Deisebau newydd